


Yr her:

Yn anffodus, mae nifer o ddigwyddiadau chwaraeon wedi eu canslo eleni e.e. Wimbledon, Ewros a'r gemau Olympaidd. Ond, yn lle gwyllo eleni, beth am greu achlysur eich hun? Fe allwch greu gem newydd gyda'ch teulu a'i droi mewn i dwrnamaint/dathliad/ digwyddiad newydd ac unigryw. Ond cyn ei greu, be am ymchwilio i rai sy'n bodoli eisoes?



Pwyntiau trafod i rieni:

- Gallwch restrï gemau a mathau o chwaraeon yr ydych yn hoffi?
- Pa nodweddion sydd angen i fod yn chwaraewr da?
- Pa nodweddion sydd angen i fod yn aelod da mewn tîm?
- Oes yna math o chwaraeon newydd hoffech i drïo?
- Pa ddigwyddiadau sydd wedi, neu oedd i fod i ddigwydd eleni?
- Pa chwaraewyr enwog sydd yn chwarae'r gemau?



Cynllun pythefnos: Chwarae (Meithrin & Derbyn)

Rhaid gwneud...

- Adnabod llythrennau wyddor
- Ymarfer ffurfio llythrennau'r wyddor
- Ymarfer ffurfio enw
- Darllen yn reolaidd- darllen a gwrando ar storïau.
- Ymarfer canu caneuon / hwiangerddi

- Ymarfer adnabod rhifau
- Ymarfer ffurfio rhifau
- Adrodd rhifau yn eu trefn - ymlaen ac yn ôl
- Adio a thynnu ymarferol

- Joe Wicks - sesiwn fyw ar 'YouTube' am 9:00yb
- Cofiwch ofyn am ganiatad rhieni i fynd ar 'YouTube'
- Cosmic Kids Yoga - sesiwn ar 'YouTube'
- Sgwrsio gyda'ch rhieni am eich diwrnod a sut rydych yn teimlo.
- Beth am helpu o amgylch y tŷ? e.e. gwneud eich gwely, gosod y bwrdd, helpu yn yr ardd ayyb.

Dylech wneud...



Llythrennedd



Rhifedd



Thema



Beth am chwarae gêm 'Rwy'n gweld gyda fy llygaid fach i...' gyda'r teulu?



Ewch ati i chwarae gêm 'Faint o'r gloch Mr Blaidd' gydag aelodau'r teulu.



Ewch ati i gynllunio diwrnod Mabolgampau ar gyfer chi a'ch teulu! Beth am gynnwys ras llwy ac wŷ, ras cropian, ras hercian, ras rhwystr, ras sach ag ati. Recordiwch eich hun - trydarwch eich fideo, neu rhowch ar Hwb - i ddangos eich doniau!



Beth am ganu cân gyda Cyw - 'Cadw'n Heini'? Ewch ati i neidio lan a lawr fel Bolgi a Cyw wrth ganu'r gân.



Sawl gwaith allwch chi taflu a dal pêl/rholio pêl/bownsio pêl/neidio/naid seren mewn 30 eiliad/mewn munud. Beth am ofyn i aelod o'r teulu i'ch amseru?



Beth am greu cae rygbi/pêl-droed/parc/pwll nofio gan ddefnyddio blociau LEGO/duplo? Tynnwch lun a'u rhoi ar Drydar!



Beth yw eich hoff chwaraeon e.e. tenis, rygbi, pêl-rwyd, golff, nofio? Beth am dynnu llun o'ch hunan yn cadw'n heini ac ysgrifennu gair/brawddeg i fynd gyda'r llun?



Oes pethau gyda chi yn y tŷ sy'n rholio? Beth am eu dosbarthu mewn i setiau? Dewisiwch sut i'w dosbarthu e.e. lliw, maint, defnydd. Tynnwch lun o'r setiau a'u rhoi ar Drydar!



Beth am greu offeryn e.e. drwm, maraca, seiloffôn gan ddefnyddio deunyddiau ailgylchu. Perfformiwch cân gan ddefnyddio'ch offeryn newydd a'u recordio! Byddwn ni wrth ein boddau yn gwyllo'ch perfformiad - rhannwch gyda ni!

Gallaf wneud...

Heriau LEGO

Minecraft

Dawnsio gyda Oti Mabuse

Llyfrau sain David Walliams	Cymuned y Sgarlets- Sgiliau Mathemateg	PBSkids.org - Gemau Darllen i blant
Newsround - darllen y newyddio diweddaraf	Carol Vorderman – 'My Maths School'	BBC Bitesize
ACTIV-I-TI – ar lein o 1:00yp	Cip ar Fathemateg	Hour of Code
Science experiment	SGILIAU – gemau i'w chwarae adref/clwb ysgol ar Facebook	Gwefan TopMarks Mathemateg
Science Investigations - STEM website stemsational.com	Celf Helen Elliot - Pob dydd mercher a Gwener am 3:00yp	Gwefan MathsFrame Mathemateg
Adnoddau twinkl-Mynychwch y wefan am ddim www.twinkl.co.uk/offer yn defnyddio côd UKTWINKLHELPS	Orielodl - fideo cam wrth gam	mathsalamanders.com
Zumba Kids	Criw Celf, Huw Aaron - pob dydd am 3y.p	Gwersi canu gyda Myleene Klass am 10:00 yb
	Llifo'n Llawen - Yoga	Coginio gyda Jamie Oliver am 12:00 yp
	Just Dance - 'Youtube'	Traed Bach Sionc (Busy Feet) - Youtube